# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu yn rhithriol am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 (Tudalennau 3 - 6)**

**5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 20)**

**6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 21 - 40)**

**7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 41 - 46)**

**8. Apeliadau (Tudalennau 47 - 48)**

**9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 10 Tachwedd 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd John Roberts

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Ms Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Swyddog Rheoli Datblygu'r Gogledd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am – 12:20pm)

1 **Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorydd Paul Hinge wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod oherwydd ei fod yn ymgymryd â dyletswyddau eraill y Cyngor.

3 **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**
Bu i'r Cynghorydd Odwyn Davies ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A210121.

Bu i'r Cynghorydd Rhodri Evans ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A210464.

Bu i'r ddau adael y cyfarfod tra'r oedd y ceisiadau perthnasol yn cael eu trafod.

4 **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

5 **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

A210121 Codi adeilad fferm amaethyddol, Abermarlais, Cellan, Llanbedr Pont Steffan

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- At ei gilydd, nid oedd yr adeilad fferm amaethyddol yn effeithio'n andwyol ar y dirwedd oherwydd ei fod yn ddatblygiad bach – heb fod yn rhy amlwg na mawr
- Byddai modd sgrinio'r adeilad a byddai bordiau pren yn cael eu gosod ar yr ochr er mwyn iddo fod yn gydnaws ag adeiladau amaethyddol eraill yng nghefn gwlad agored
- Nid oedd i'r cais unrhyw effaith ecolegol oherwydd nad oedd yr ymgeisydd yn creu mynedfa newydd i'r adeilad
- Mae angen yr adeilad er lles yr anifeiliaid ac i gynorthwyo'r ymgeisydd â'i waith
- Mae'n bolisi gan Gyngor Sir Ceredigion i hyrwyddo ac i gefnogi'r sector amaethyddol
- Mae'r adeilad yn agos at adeiladau eraill
- Mae'r daliad ar draws y ffordd
- Mae'r cais yn cydymffurfio â pholisi DM10
- Cafodd polisi DM06 ei liniaru gan fod y cais yn cydymffurfio â pholisi DM10
- Mae'r cais yn ymlynu wrth bwynt 3 polisi S04
- Nid yw mewn anheddiad cyswllt
- Mae angen lleol am yr adeilad hwn ac mae'n cefnogi'r economi leol
- Y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cyfyngu ar gymeradwyo'r cais hwn gan fod Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylid cefnogi adeiladau amaethyddol
- Nid yw TAN6 yn berthnasol

---

6 **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Bu i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Bryan Davies, gadeirio'r cyfarfod tra'r oedd cais A210387 yn cael ei drafod gan fod y Cadeirydd am annerch y cyfarfod yn rhinwedd y ffaith mai ef yw'r Aelod lleol.

Bu i Mr E Jenkins annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210387 Cynnig i godi annedd fforddiadwy gan gynnwys creu mynediad i gerbydau a gosod gwaith trin carthion, Tir wrth ymyl Glownant, Talsarn

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais am fis i ganiatáu mwy o amser neu 'gyfnod callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, gan gynnwys:

- sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws â'r dirwedd
- maint y datblygiad
- bod yr ymgeisydd wedi cyd-drafod â'r Awdurdod Cynllunio Lleol
- adran 5.62 o Bolisi Cynllunio Cymru

ac er mwyn i'r Pwyllgor gael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad a'r risg cyn penderfynu'n derfynol

---

Bu i Mr Geraint Hughes (Asiant) annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210463 Cynnig i godi annedd unllawr, Tir yn Woodcroft, Capel Dewi, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais am fis i ganiatáu mwy o amser neu 'gyfnod callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, gan gynnwys:

- barn y swyddogion Blaen-gynllunio am ddyfodol Capel Dewi yn y Cynllun Datblygu Lleol, adran 4.2.5 Polisi Cynllunio Cymru ac
- adrannau 5 a 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- bod 10% wedi'i gynnig ac er mwyn i'r Pwyllgor gael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad a'r risg cyn penderfynu'n derfynol

---

Bu i Ms Naomi Mudie (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210464 Codi sied storio â ffrâm ddur i'w defnyddio i storio peiriannau a bwyd anifeiliaid, Caeau Tyncelyn, Llangeitho, Tregaron

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais er mwyn i'r ymgeisydd ddarparu mwy o wybodaeth a thystiolaeth fel y nodwyd ganddi yn ei datganiad i'r Pwyllgor. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys:

- sut y mae'r datblygiad yn gydnaws â'r dirwedd

ac er mwyn i'r Pwyllgor gael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad a'r risg cyn penderfynu'n derfynol

Mae angen yr wybodaeth hon cyn i'r Grŵp Cyfnod Callio ystyried y cais.

---

Bu i Mr Maldwyn Pryse (Gwrthwynebydd) a Mr Arwyn Jones (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210468 Cynnig i estyn ac i addasu'r annedd, gan gynnwys cael gwared ar y rhan unllawr o'r annedd, 16 Pen-y-graig, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau.

---

7 **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 **Apeliadau cynllunio**

CYTUNWYD i nodi'r penderfyniadau a oedd wedi dod i law o ran apeliadau cynllunio.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:-____________________**

**Dyddiad:______________________**

# 1. Gohiriwyd/Deferred

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Dyddiad y derbyniwyd / Received Date | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Argymhelliad / Recommendation |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A200906 | 23-10-2020 | Mr L Baker (LEB Construction Ltd) | Conversion, extension and alterations of existing dwelling to provide 4 self contained flats | 1 Castle Terrace, South Road, Aberystwyth, SY23 1JT | Approve Subject to Conditions |

# 1.1. A200906



Rock
Shingle
Mean High Water
TCB
Picnic Area
Garth
Heol Y Castell
TAN Y CAE/SOUTH RD
RHES RHEIDOL/RHEIDOL TERRACE
FFORDD Y CEI / QUAY ROAD
Rheidol Place
Car Park
Sewage Pumping Station
Pont Aberystwyth
Slipway
Club
El Sub Sta
PH
7.6m
12.8m
14.6m
18.6m
8.2m
9.8m
6.7m
10.7m
7.0m
4.0m

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais** | A200906 |
| **Derbyniwyd** | 23-10-2020 |
| **Y Bwriad** | Trosi, estyn a newid yr annedd bresennol i ddarparu pedwar fflat hunangynhwysol |
| **Lleoliad y Safle** | 1 Heol y Castell, Tan-y-Cae, Aberystwyth, SY23 1JT |
| **Math o Gais** | Cynllunio Llawn |
| **Ymgeisydd** | Mr L Baker (LEB Construction Ltd), Uned 8b Ystâd Ddiwydiannol Glanyrafon, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3JQ |
| **Asiant** | Mr Rhys ap Dylan (Morgan & Davies), Morgan & Davies, 4 Stryd y Farchnad, Aberaeron, SA46 0AS |

**Y SAFLE A HANES PERTHNASOL**

Mae safle'r cais yn ymwneud ag annedd deras, draddodiadol, dri llawr, wedi'i lleoli ar y cornel rhwng Tan-y-Cae a Rhes Rheidol yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Aberystwyth. Mae'r adeilad ei hun yn eiddo Fictoraidd cymesur iawn ag iddo fanylion dymunol ac mae'r tu allan wedi ei rendro a'i beintio. Yn gyffredinol, mae cymeriad yr ardal yn nodweddiadol drefol ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o dai teras trefol sydd wedi eu trefnu yn batrwm unffurf.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Dylid nodi bod nifer y fflatiau wedi ei ostwng o 5 i 4 yn ystod cyfnod ystyried y cais hwn ac mae'r cais wedi ei ystyried ar y sail hon.

Mae'r cais am ganiatâd cynllunio llawn i drosi'r eiddo er mwyn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio yn bedwar fflat unigol, hunangynhwysol. Byddai'r unedau wedi'u cynnwys yn bennaf o fewn strwythur presennol yr adeilad. Yr unig eithriad i hyn fyddai ailadeiladu'r estyniad croes un llawr a'r garej sy'n bodoli yn y cefn er mwyn darparu llety ychwanegol ar gyfer fflat ar y llawr gwaelod. Yn ogystal â hyn, cynigir newid rywfaint ar y ffenestri a bydd wal derfyn estynedig hefyd yn creu lle amgaeedig i mewn i Res Rheidol.

Y tu mewn, bydd y fflatiau'n cael eu trefnu dros 3 llawr gyda'r llawr gwaelod yn cynnwys 2 fflat 1 ystafell wely a'r ddau lawr uchaf fel ei gilydd yn cynnwys 1 fflat â dwy ystafell wely ar bob lefel.

Mae darpariaeth ar gyfer storio beiciau a gwastraff ar y llain gul o dir yng nghefn yr adeilad.

**POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Polisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol:

- FW21 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- PPW21 Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- DM06 Dylunio a Gwneud Lle o Ansawdd Uchel
- DM07 Ardaloedd Cadwraeth
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- LU07 Isrannu Anheddau Presennol

- S01 Twf Cynaliadwy

- S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

**DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anrhefn o fewn ei ardal, a'r angen i gymryd pob cam rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn y lefelau trosedd ac anrhefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig' sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

• dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;

• cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac

• annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol ac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol ar bobl sydd â nodwedd warchodedig, o'u cymharu ag unrhyw un arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**YMATEBION YMGYNGHORI**

Cyngor Tref Aberystwyth – Yn gwrthwynebu

Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad ond bydd amodau

Draenio Tir – Dim gwrthwynebiad/ Yn rhoi gwybodaeth gyffredinol

Ecoleg – Ni chafwyd sylwadau

Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan 5 gwrthwynebydd trydydd parti a oedd yn canolbwyntio ar y materion isod.

- Colli cartrefi i deuluoedd
- Niwed i amwynder
- Llifogydd
- Perchnogaeth Tir
- Darpariaeth Parcio
- Troseddau
- Gwaredu gwastraff

**CASGLIAD**

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan:

"Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau materion yn cyfleu fel arall"

Mae safle'r cais hwn wedi'i lleoli o fewn ffiniau diffiniedig anheddiad Aberystwyth, sy'n cael ei nodi yn Ganolfan Gwasanaethau Trefol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae polisi S01 y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â Thwf Cynaliadwy ac mae'r polisi hwn yn nodi bod angen datblygu oddeutu 6,544 annedd erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2022 ac y dylai o leiaf 51% o'r anheddau hyn gael eu darparu yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol.

Mae polisi S02 y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol ac mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad fod o fewn terfynau diffiniedig y Canolfannau Gwasanaethau Trefol. Yn Aberystwyth, mae angen datblygu er mwyn cyfrannu at arwyddocâd cenedlaethol y dref ac at ei rôl fel canolfan strategol ar gyfer Canolbarth Cymru ac mae'n ategu'r amcanion a'r camau gweithredu presennol sy'n ymwneud â'i Statws Adfywio Strategol.

Cyfanswm y tai y mae'n ofynnol eu cyflenwi yn Aberystwyth fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol yw 1877. Yn ôl ffigyrau diweddaraf a gafwyd wrth fonitro tai y Cynllun Datblygu Lleol (Mawrth 2021) nodir bod 613 annedd wedi'u cwblhau yn y Ganolfan Gwasanaethau Trefol gyda chaniatâd yn bodoli ar gyfer 347 annedd bellach. Felly, gan roi ystyriaeth i eiddo'n cael ei ddymchwel a'i drosi, mae capasiti ar gyfer 1133 annedd bellach yn Aberystwyth.

Fel y cyfryw, ystyrir y byddai'r cynigion yn cydymffurfio â pholisïau S01 a S02 y Cynllun Datblygu Lleol a derbynnir egwyddor y datblygiad.

Mae polisi LU07 yn ymwneud ag 'Isrannu Anheddau sydd Eisoes yn Bodoli' ac mae'r polisi hwn yn datgan y caniateir trosi unedau preswyl mawr yn fflatiau yn amodol ar y pum maen prawf a nodir isod:

1. Mae'r annedd o faint a chynllun addas sy'n ei gwneud hi'n bosibl ei throsi heb estyniad sylweddol;
2. Nid yw'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar amwynder deiliaid cyfagos ac mae'n cynnwys seinglosio digonol rhwng unedau;
3. Nid yw'r datblygiad yn arwain at broblemau sylweddol o ran parcio;
4. Mae darpariaeth ddigonol ar gyfer storio sbwriel; a
5. Darperir fflatiau 3 a 4 ystafell wely fel rhan o'r arlwy, lle ceir tystiolaeth bod angen lleol am fflatiau mwy ac nad yw'r angen hwnnw wedi ei fodloni a bod gan yr eiddo y capasiti ffisegol priodol.

Ystyrir bod y fflatiau arfaethedig o faint derbyniol a byddant yn cynnig safon byw foddhaol i'r sawl fydd yn eu meddiannu yn y dyfodol.

Mae'r cais yn gofyn am ychwanegu estyniad un llawr at gefn yr eiddo, fodd bynnag mae hwn yn lle estyniad 'croes' a garej a fydd yn cael eu dymchwel. Dim ond ceisio estyn ôl troed yr adeilad ryw ychydig yn fwy na'r ôl troed presennol mae'r cais, felly. O'r herwydd, ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â maen prawf 1 LU07 sy'n ceisio gwrthsefyll estyniadau 'sylweddol' wrth drosi eiddo.

Gan fod yr adeilad ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel cartref i un teulu, yn ddi-os bydd y datblygiad yn arwain i ryw raddau at niwed amwynder i'r eiddo cyfagos oherwydd y cynnydd yn y 'mynd a'r dod' a fydd yn deillio o breswylwyr y dyfodol. Fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl mewn lleoliad yng nghanol tref ac nid ystyrir ei fod yn effeithio'n andwyol ar amwynder mannau preswyl cyfagos i'r fath raddau fel ei fod yn cyfiawnhau gwrthod y cais. Gellir ymdrin â seinglosio rhwng unedau preswyl drwy osod amod. Felly, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf 2 LU07.

Mae gan yr eiddo presennol un man parcio oddi ar y stryd - yn y garej sydd yno ar hyn o bryd . Byddai'r datblygiad yn lleihau nifer cyffredinol y llefydd parcio sydd ar gael, fodd bynnag oherwydd ei fod wedi ei leoli mewn man cynaliadwy yng nghanol y dref, yn agos at ystod o ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r eiddo hwn yn addas ar gyfer datblygiad di-gar. Nid yw'r Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi nodi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig. Felly, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf 3 LU07.

Bydd lle i storio bin allanol yn cael ei ddarparu ar gyfer pob un o'r fflatiau arfaethedig yn unol â maen prawf 4 LU07.

Bydd y datblygiad yn cynnwys darparu dau fflat un ystafell wely, yn ogystal â dau fflat dwy ystafell wely. Felly, bydd y datblygiad yn darparu amrywiaeth ac ystod addas o ran maint unedau, o ystyried nifer y llefydd byw a ddarperir yn unol â maen prawf 5 LU07.

**Cymeriad Gweledol ac Ardal Gadwraeth**

Mae'r cais yn gofyn am ddymchwel 'estyniad croes' a garej sydd yno ar hyn o bryd er mwyn lletya'r datblygiad. Ystyrir bod graddfa'r hyn sydd i'w ddymchwel yn is na 115 metr ciwbig ac felly nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth.

Bydd yr estyniad newydd y bwriedir ei godi yn y cefn yn cynnwys to fflat a fyddai fel rheol yn rhywbeth a gâi ei wrthsefyll mewn ardaloedd cadwraeth gan fod toau fflat yn tynnu oddi ar yr olygfa o doau Aberystwyth fodd bynnag gan y bydd yr estyniad cefn wedi ei leoli y tu ôl i wal derfyn dal, na fydd yn amlwg o le cyhoeddus, felly ystyrir bod yr estyniad to fflat yn y cefn yn ddatblygiad derbyniol. Lle mae modd cael cipolygon, yna bydd yr estyniad newydd yn well i gymeriad gweledol yr ardal na'r garej bresennol.

**Niwed i Amwynder eiddo cyfagos**

Fel y trafodwyd, nid ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at fwy o niwed i'r amwynder nag y byddid yn ei ddisgwyl yng nghanol tref, yn sgil mwy o fynd a dod. Gellir ymdrin â niwed sy'n deillio o sŵn drwy gyfrwng amod fydd wedi'i eirio'n briodol. Roedd sylwadau gan feddianwyr eiddo cyfagos yn nodi colli mwy o olau fel rheswm dros wrthwynebu, yn sgil hyn cafwyd gwared ar lawr uchaf yr estyniad cefn o'r cais.

Mae meddiannydd yr eiddo cyfagos wedi codi pryderon y byddai to fflat yr estyniad yn cael ei ddefnyddio fel teras to/balconi. Felly, fe'i hystyrir yn briodol ychwanegu amod a fydd yn rhwystro hyn rhag digwydd dros byth.

**Amodau Byw Meddianwyr y Dyfodol**

Mae polisïau creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru, dogfen bolisi ddiweddar Adeiladu Llefydd Gwell a Pholisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio darparu cartrefi o ansawdd da sy'n ategu llesiant a gwell iechyd corfforol a meddyliol.

Ystyrir bod y fflatiau arfaethedig ar y llawr gwaelod yn fach, fodd bynnag byddai maint y llety a'r cyfleusterau ymolchi yn bodloni safonau gofod iechyd amgylcheddol. Nid oes unrhyw safonau cynllunio o ran gofod sy'n berthnasol i anheddau ar y farchnad agored. Gellir darparu'r cyfleusterau sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu. Mae lefel y gofod amwynder yn gymesur â chymeriad eiddo arall yn y lleoliad hwn yng nghanol y dref.

Mae hyn wedi ei gadarnhau mewn penderfyniad apêl diweddar a oedd yn ymwneud â throsi eiddo tebyg yn Stryd Cambria, Aberystwyth.

**Tai Fforddiadwy**

Mae polisi S05 y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â Thai Fforddiadwy ac yn datgan bod angen swm cymudol sy'n cyfateb i 10% o werth y datblygiad a'r gwerth hwnnw i'w bennu ar adeg y cais, mewn achosion lle bo cynigion yn cynhyrchu rhywbeth sy'n ateb y gofyn am dai fforddiadwy ond nad yw'n uned gyflawn.

Mae Canllaw Cynllunio Atodol y Cyngor 'Tai Fforddiadwy' yn helaethu ar y polisi hwn ac yn datgan y bydd angen talu swm cymudol o 10% o bris gwerthiant y cartref wedi iddo gael ei gwblhau ac wedi iddo gael ei brisio ar sail y cynllun ar adeg y cais. Bydd y swm hwn i'w dalu pan werthir neu y trosglwyddir yr eiddo am y tro cyntaf.

Mae Polisi S05 y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn datgan y bydd angen i ddatblygwyr sy'n ceisio negodi gostyngiad o ran darpariaeth tai fforddiadwy yn gorfod cyflwyno manylion i ddangos nad yw'r safle benodol yn hyfyw.

Cyflwynwyd her hyfywedd i ategu'r cais. Ar ôl ystyried yr her hyfywedd gan ddefnyddio amrywiaeth tai/swm cymudol a chyfrifiannell hyfywedd Cyngor Sir Ceredigion, ystyrir bod swm cymudol yn lle cyfraniadau tai fforddiadwy ar y safle yn ariannol hyfyw yn yr achos hwn. Mae'r ymgeisydd, felly, wedi cytuno i ymrwymo i gytundeb cyfreithlon adran 106 er mwyn sicrhau swm cymudol o £19,226. Derbynnir, fodd bynnag, nad yw swm cymudol sy'n cyfateb i 10% yn gyraeddadwy yn ariannol.

**Ystyriaethau eraill**

Nid oes gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad fel y'i cynigir, ond bod amodau. Fel y trafodwyd uchod, ystyrir bod lleoliad y datblygiad hwn yng nghanol y dref yn gynaliadwy iawn ac o'r herwydd ni fydd angen teithio mewn car.

Nid yw ecolegydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud sylwadau am y cais. Fodd bynnag, oherwydd lleoliad, graddfa a natur y datblygiad arfaethedig nid ystyrir y bydd y cynnig yn arwain at unrhyw niwed i rywogaethau gwarchodedig neu asedau dynodedig.

Cododd gwrthwynebwyr trydydd parti lifogydd yn rheswm dros bryderon a hynny oherwydd bod yr eiddo yn agos i lannau

deheuol Aberystwyth. Nid yw safle'r cais wedi'i dynodi o fewn y parth llifogydd ar Fap Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly ni roddwyd ystyriaeth bellach i'r pryder hwn.

Mae preswylydd yr eiddo cyfagos hefyd yn codi dadl ynghylch ffiniau wrth drafod gwaith fydd yn cael ei wneud i wal y rhennir ar y cyd â'i eiddo ef. Mater preifat yw materion sy'n ymwneud â dadleuon ynglŷn â ffiniau ac nid ydynt yn effeithio ar y rhinweddau cynllunio y gellir seilio penderfyniad arnynt wrth ymdrin â'r cynllun hwn.

**Casgliad**

Mae darparu tai ychwanegol yn cael ei ategu gan neges gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio cyfeirio tai i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Mae LU07 y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi sail polisi i drosi anheddau preswyl mawr yn fflatiau. Felly, ystyrir bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol. Mae'r cais wedi dangos sut y gellir cyflenwi'r datblygiad heb arwain at unrhyw niwed andwyol ychwanegol i'r eiddo cyfagos. Am y rhesymau uchod, argymhellir cymeradwyo'r cynllun ond gydag amodau.

**Awdurdod Dirprwyedig**

Roedd y Cynghorydd Endaf Edwards yn dymuno cyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ei ystyried, am y rhesymau canlynol:

- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli cartref teuluol
- Mae parcio a thagfeydd traffig yn broblemau real iawn yn yr ardal, ac rwy'n pryderu y byddai'r datblygiad yn cyfrannu at y naill a'r llall
- Mae llawer o eiddo yn yr ardal yn wag ac nid wyf o'r farn bod angen yn lleol am y datblygiad hwn. Mae amgylchiadau'r ardal wedi newid ers i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu.

**RHESWM DROS OHIRIO:**

Gohiriodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ystyriaeth o'r cais cynllunio yma fel y gallai'r Grŵp Tasg a Gorffen ystyried y cais a chaniatáu i wybodaeth ychwanegol gael ei gyflwyno mewn perthynas â pherchnogaeth tir, maint y lle amwynder, a chywirdeb y cynlluniau a gyflwynwyd mewn perthynas â raddfa yr estyniad arfaethedig.

Mae'r wybodaeth bellach wedi'i ddarparu ac mae swyddogion hefyd wedi bod allan i'r safle i gadarnhau cywirdeb y cynlluniau.

Mae'r garej ynghyd â'r adeilad allanol presennol yn ymestyn i 24.5 metr sgwâr ac yn mesur 2.8m o uchder. Ôl- troed canlyniadol yr estyniad yw 17.3 metr sgwâr ac mae'n mesur 2.8m o uchder. Felly bydd yr estyniad canlyniadol yn arwain at ôl troed yn llai i'r adeilad na'r ffurf adeiledig bresennol ar ôl dymchwel y garej.

Mae maint y fflatiau arfaethedig yn cydymffurfio â'r safonau iechyd amgylcheddol gofynnol.

Darperir lluniau i ddangos maint y gofod amwynder presennol, a fydd yn cael ei ymestyn fel rhan o'r datblygiad. Mae'r gofod amwynder presennol yn ymestyn i 19.7 metr sgwâr. Mae'r gofod amwynder arfaethedig yn ymestyn i 26.9 metr sgwâr. Mae'n hawdd darparu ar gyfer y sied feiciau a'r storfa biniau. O ystyried lleoliad y safle yng nghanol y dref a'i agosatrwydd at draeth a pharc, yna mae'r diffyg lle ffurfiol ar gyfer gardd yn dderbyniol.

Mae materion sy'n ymwneud â pherchnogaeth tir yn parhau i fod yn fater sifil y tu hwnt i gylch gwaith cynllunio, ond ar ôl ystyried gwybodaeth y gofrestrfa tir nid yw'n ymddangos fel pe bai unrhyw lechfeddiant yn digwydd.

Gellir cyfyngu defnydd to fflat yr estyniad arfaethedig fel to teras trwy amod cynllunio.

**ARGYMHELLIAD:**

Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A200906 |
| **Derbyniwyd / Received** | 23-10-2020 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Conversion, extension and alterations of existing dwelling to provide 4 self contained flats |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | 1 Castle Terrace, South Road, Aberystwyth, SY23 1JT |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr L Baker (LEB Construction Ltd), Unit 8b Glanyrafon Industrial Estate, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3JQ |
| **Asiant / Agent** | Mr Rhys ap Dylan (Morgan & Davies), Morgan & Davies 4 Market Street, Aberaeron, SA46 0AS |

**THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY**

The application site relates to a traditional 3 storey terraced dwelling which occupies a corner plot between South Road and Rheidol Terrace within Aberystwyth Town Centre Conservation Area. The building itself is an attractively detailed and well-proportioned Victorian property with a painted rendered exterior.  The prevailing character of the area is typical urban and includes a wide variety of terraced town houses set in a uniform pattern.

**DETAILS OF DEVELOPMENT**

The application seeks full planning permission for the conversion of the property to allow it to be used as four individual self-contained flats. The units would predominantly be accommodated within the existing fabric of the building. The only exception to this would be the rebuilding of an existing rear single-storey lean-to extension and garage to provide additional accommodation to a ground floor flat. Additionally, some changes to fenestration are proposed together with an extended boundary wall enclosure onto Rheidol Terrace.

It should be noted that during the course of considering this application the number of flats has been reduced from 5 to 4 and the application has been considered on this basis.

Internally the flats will be arranged over 3 floors with the ground floor housing 2 x 1 bedroom flats and the upper floors housing 1 x 2 bedroom flat on each level.

Provision is made for cycle and refuse storage in the rear side return of the building.

**RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE**

National planning policies and guidance:

- FW21 Future Wales: The National Plan 2040

- PPW21 Planning Policy Wales (Edition 11, February 2021)

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- DM06 High Quality Design and Placemaking

- DM07 Conservation Areas

- DM13 Sustainable Drainage Systems

- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

- DM15 Local Biodiversity Conservation

- LU07 Subdivision of Existing Dwellings

- S01 Sustainable Growth

- S02 Development in Urban Service Centres (USCs)

**OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

**CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of ‘protected characteristics’, namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council’s duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

**YMATEBION YMGYNGHORI / CONSULTATION RESPONSES**

Cyngor Tref Aberstwyth Town Centre – Object

Highways – No Objection STC

Land Drainage – No Objection/General Informative

Ecology – Did not comment

Objections have been received in respect of the application from 5 third party objectors focusing on the below.

- Loss of Family homes
- Amenity Harm
- Flooding
- Land Ownership
- Parking Provision
- Crime
- Refuse disposal

**CASGLIAD / CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: “If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

The application site lies within the defined settlement boundary of Aberystwyth, which is identified as an Urban Service Centre (USC) within the Local Development Plan (LDP). Policy S01 of the LDP relates to Sustainable Growth and this identifies that approximately 6,544 dwellings are required to be developed by the end of the plan period in 2022 and at least 51% of these dwellings should be delivered in the Urban Service Centres.

Policy S02 of the LDP relates to 'Development in Urban Service Centres' and this requires that all development is within the defined limits of the Urban Service Centres. In Aberystwyth, development is also required to contribute to its national significance and its role as the strategic centre for Mid Wales and Supports current objectives and action plans relating to its Strategic Regeneration Status.

The total requirement for housing delivery within the Aberystwyth as set out in the LDP is 1877. The latest LDP housing monitoring figures (March 2021) shows that only 613 dwellings have been completed in the Urban Service Centre with extant permission for a further 347 dwellings. Therefore accounting for demolitions and conversions there is capacity for a further 1133 dwellings in Aberystwyth.

As such, it is considered that the proposals would comply with Policies S01 and S02 of the LDP and the principle of development is accepted.

Policy LU07 relates to 'Subdivision of Existing Dwellings' and this states that the conversion of large residential units to flats will be permitted subject to five criteria as set out below:

1. The dwelling is of a suitable size and layout capable of conversion without substantial extension;
2. The development does not adversely affect the amenity of the adjoining occupants and includes adequate soundproofing between units;
3. The development does not result in significant parking problems;
4. There is adequate provision for the storage of refuse; and
5. Provision of 3 and 4 bedroom apartments is included as part of the mix, where there is evidence of unmet local need for larger flats and the property has appropriate physical capacity.

The size of the proposed flats is considered acceptable and will afford a decent standard of living to future occupiers

The application does seek the addition of a single storey extension to the rear of the property however this is in place of an existing 'lean to' extension and garage which are to be demolished. The application therefore only seeks to extend the footprint of the building minimally above the existing. The application is therefore considered to confirm with criterion 1 of LU07 which seeks to resist 'substantial' extensions as part of conversions

As the building is currently in use as a single family home the development will undoubtedly lead to a degree of amenity harm to neighbouring properties owing to the resultant increase in the 'comings and goings' of future residents. However this is to be expected in a town centre location and is not considered to adversely affect the amenity of neighbouring residents to such a degree as to justify refusing the application. Soundproofing between residential units can be dealt with by way of condition. The proposed development is therefore considered to comply with criterion 2 of LU07.

